# Disgrifiad Rôl a Manyleb Person

# Ymddiriedolwr Etholedig

# Cymdeithas Elusennol Ynys Môn

## Disgrifiad o'r rôl – Ymddiriedolwr Etholedig

### Crynodeb

Ymddiriedolwyr Cymdeithas Elusennol Ynys Môn sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr elusen yn gwneud yr hyn y mae wedi'i sefydlu i'w wneud. Ymddiriedolwyr yw'r bobl sy'n arwain yr elusen ac yn penderfynu sut y caiff ei rhedeg. Mae bod yn ymddiriedolwr yn golygu gwneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar fywydau pobl: gwneud gwahaniaeth i'n cymunedau lleol. Bydd ymddiriedolwyr yn defnyddio eu sgiliau a'u profiad i gefnogi Cymdeithas Elusennol Ynys Môn i helpu'r elusen i gyflawni ei nodau.

| **Cyfrifoldebau** |
|---|
| ▪ sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â'i dogfen lywodraethol ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill;<br>▪ sicrhau bod yr elusen yn dilyn ei hamcanion fel y diffinnir yn ei dogfen lywodraethol;<br>▪ sicrhau bod yr elusen yn defnyddio ei hadnoddau yn unol â'i hamcanion yn unig, h.y. rhaid i'r elusen beidio â gwario arian ar weithgareddau nad ydynt wedi'u cynnwys yn ei hamcanion ei hun, ni waeth pa mor werth chweil neu elusennol yw'r gweithgareddau hynny;<br>▪ cyfrannu'n weithredol at rôl Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wrth roi cyfeiriad strategol cadarn i'r elusen fel sefydliad, pennu polisïau cyffredinol, diffinio nodau, gosod targedau a gwerthuso perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt;<br>▪ diogelu enw a gwerthoedd da'r elusen;<br>▪ cynrychioli'r elusen mewn swyddogaethau a chyfarfodydd fel y bo'n briodol; |

- datgan unrhyw wrthdaro buddiannau wrth gyflawni dyletswyddau ymddiriedolwr elusen;
- bod yn gyfrifol ar y cyd am weithredoedd yr elusen ac ymddiriedolwyr eraill yr elusen;
- sicrhau bod yr elusen yn cael ei gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon;
- cadw at ddeddfwriaeth amrywiaeth a chyfle cyfartal;
- derbyn a hyrwyddo gwaith yr elusen fel sefydliad dwyieithog sy'n gweithio mewn cymdeithas ddwyieithog sydd â statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg;
- sicrhau sefydlogrwydd ariannol yr elusen;
- diogelu a rheoli eiddo'r elusen a sicrhau bod ei chronfeydd yn cael eu buddsoddi'n briodol;
- sicrhau bod yr elusen wedi'i hyswirio'n briodol yn erbyn pob rhwymedigaeth resymol;
- penodi a chefnogi gweithwyr yr elusen a monitro eu perfformiad.

## Tymor y penodiad

Penodir ymddiriedolwyr etholedig yr elusen am gyfnod o dair blynedd. Ni chaniateir ailbenodi ymddiriedolwr etholedig sydd wedi gwasanaethu am ddau dymor yn olynol am drydydd tymor, ond gellir ei ailbenodi ar ôl cyfnod o dair blynedd o leiaf.

# Manyleb person – Ymddiriedolwr Etholedig

## Pwy sy'n gymwys – gofyniad cyfreithiol

1. Rhaid i enwebeion fod dros 16 oed a pheidio â chael eu hanghymhwyso yn ôl y gyfraith rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr, gan gynnwys unrhyw un a ddisgrifir yn adrannau 178 i 180 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae hyn yn cynnwys:

- unrhyw un sydd â chollfarn nas gwariwyd am drosedd sy'n ymwneud â thwyll neu anonestrwydd;
- unrhyw un sy'n fethdalwr heb ei ryddhau;
- unrhyw un sydd wedi'i ddiswyddo o fod yn ymddiriedolwr elusen gan y Llys neu'r Comisiwn Elusennau am gamymddwyn neu gamreoli;
- unrhyw un o dan orchymyn anghymhwyso o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986; neu
- unrhyw un sydd wedi ymrwymo i gyfansoddiad neu drefniant gyda'u credydwyr sy'n cynnwys trefniant gwirfoddol unigol (IVA), ac sydd ar y Gofrestr Gwasanaeth Ansolfedd ar hyn o bryd.

## Rhinweddau

Rhaid i enwebeion allu dangos:

- uniondeb, didueddrwydd, tegwch a'r gallu i barchu hyder;
- ymrwymiad i weithredu er budd Cymdeithas Elusennol Ynys Môn yn unig heb ystyried diddordeb neu fudd personol;
- dealltwriaeth a derbyniad o ddyletswyddau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol ymddiriedolwyr elusennol;
- parodrwydd i neilltuo'r amser a'r ymdrech angenrheidiol i'w dyletswyddau fel ymddiriedolwr elusen;
- gweledigaeth strategol;
- parodrwydd i wneud penderfyniadau a bod yn atebol amdanynt;
- rhoi barn gadarn, annibynnol a gwneud penderfyniadau effeithiol;
- y gallu i feddwl yn greadigol;
- parodrwydd i siarad eu meddwl;
- lefel uchel o frwdfrydedd a chymhelliant;
- y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm;
- dim gwrthdaro buddiannau posibl sylweddol.

**Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad**

Bydd angen i enwebeion ddangos gwybodaeth, sgiliau a phrofiad mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- y trydydd sector ar Ynys Môn;
- y gymuned fusnes a'r sector preifat sy'n gweithredu ar Ynys Môn;
- ymwybyddiaeth o sut mae ein hamgylchedd yn newid yn wleidyddol, yn economaidd ac yn gymdeithasol;
- gosod targedau, monitro a gwerthuso perfformiad a rhaglenni mewn sefydliadau masnachol, cyhoeddus a dielw;
- rheolaeth ariannol;
- datblygu busnes/economaidd;
- cynllunio strategol a rheoli newid;
- rheoli adnoddau dynol;
- cysylltiadau cyhoeddus, marchnata a/neu ymgysylltu â'r cyhoedd;
- y gallu i wrando ac ymateb yn adeiladol i ddadleuon a phwyntiau a gyflwynwyd gan eraill;
- addysg, dysgu a/neu ddatblygiad proffesiynol.